


Adroddiad cynnydd blwyddyn 1af am y Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2015/16

Cyngor Sir Caerfyrddin

Yn cynnwys ein Hadroddiad Blynyddol

Crynoar gyfer 2015-16

a'r Cynllun Gwella ar gyfer 2016/17



Cynnwys

Cyflwyniad	3
Cipolwg ar Gynnydd	4
Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau.....	6
Adeiladu Gwell Cyngor.....	8
Mae pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach	10
Mae pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu	12
Mae pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel	14
Mae cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy.....	16
Mae gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy llewyrchus	18
Fe ddwedsoch chi, Fe wnaethon ni	20

**Os hoffwch chi dderbyn y ddogfen hwn mewn fformat arall print
bras, ar dâp sain neu mewn Braille, cysylltwch â
Rheoli Perfformiad ar 01267 22486**

Cyflwyniad

Pan fu inni ymuno, gyda'n partneriaid, â'r Strategaeth Gymunedol Integredig ar gyfer Sir Gaerfyrddin, addasodd y Cyngor ei gynlluniau mewnol er mwyn cyfrannu cymaint â phosibl at y cytundeb. Y weledigaeth yw Sir Gaerfyrddin sy'n galluogi pobl i fyw bywydau iach a chyflawn trwy gydweithio i adeiladu cymunedau cryf, dwyieithog a chynaliadwy.

Ym mis Medi 2015, roeddem wedi adnewyddu ein Strategaeth Gorfforaethol, a bennai'r dyheadau a'r blaenoriaethau strategol er mwyn cefnogi'r weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Roedd y Strategaeth hon yn clustnodi'r prif feysydd ffocws ac yn pennu'r mesurau canlyniadau allweddol y byddai'r Cyngor yn eu defnyddio i gloriannau ei lwyddiant. Mae'r ddogfen hon yn darparu adroddiad blynyddol am y cynnydd a wnaed.

Am y pum mlynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella (ARIP) cyfunedig, sy'n manylu ar ein cynnydd o ran yr holl ganlyniadau a nodau sydd yn y Strategaeth Gymunedol Integredig. Mae'r ARIP llawn yn ddogfen fanwl a hir, ond mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb.



Strategaeth Gorfforaethol 2015-2020 Cyngor Sir Caerfyrddin
Adroddiad Blynyddol 2015/16 a Chynllun Gwella 2016/17

Cipolwg ar Gynnydd

Pan gyhoeddwyd Strategaeth Gorfforaethol 2015-20 gennym, pennwyd y mesurau canlyniadau canlynol gennym i gloriannu ein cynnydd:-

Canlyniad

Mesurau Canlyniadau

Cynnydd

Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau



- £ Y cyhoedd yn fwy bodlon ar y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor
- £ Gostyngiad mewn 'costau cynnal' sefydliadol
- £ Mwy o weithgarwch ar-lein er mwyn rhoi sylw i ymholiadau gan y cyhoedd a thrafodion



Adeiladu Gwell Cyngor



- 😊 Cynyddu cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd
- 😊 Y staff yn fwy bodlon
- 😊 Llai o absenoldeb salwch ymhlith y staff



Iachach



- ♥ Gostyngiad mewn atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a phlant
- ♥ Mwy o gartrefi fforddiadwy a chartrefi ar rent ar gael
- ♥ Mwy o ddefnydd o gyfleusterau hamdden



Dysgu











- 📖 Gwell cyrhaeddiad addysgol
- 📖 Gwell cyfraddau presenoldeb ysgol
- 📖 Llai o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
- 📖 Gwelliant yng nghyflwr ysgolion

Blwyddyn 11
Blwyddyn 13











Diogel



-  Cymorth priodol yn cael ei roi i blant, pobl ifanc a theuluoedd fel y bo'r angen 
-  Gostyngiad yn nifer y rheiny a gafodd eu hanafu/lladd mewn damweiniau ffyrdd 
-  Gostyngiad yng nghyfanswm y troseddau a gofnodir 
-  Gostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol 







Yr Amgylchedd



-  Cyfraddau ailgylchu uwch 
-  Gwell mynediad digidol 
-  Gwell cysylltiadau trafniadaeth 
-  Mwy o ddefnydd o ynni adnewyddadwy 

Economi



-  Mwy o gyflogaeth 
-  Gostyngiad yn y boblogaeth oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau diweithdra 
-  Mwy o gynhyrchiant a gweithgarwch economaidd 

Canlyniad A: Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau...

Mae'r Cyngor yn wynebu cyfnod o doriadau sylweddol a pharhaus o ran y gyllideb, ac mae sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau yn bwysicach nag erioed. Byddwn yn sicrhau bod y sefydliad yn gweithio mor effeithlon â phosibl er mwyn amddiffyn a chynnal gwasanaethau rheng flaen lle bo'n bosibl.

Fodd bynnag, efallai na fydd yn bosibl inni barhau i wneud rhai o'r pethau yr ydym wedi eu gwneud yn y gorffennol, a byddwn yn gweithio gyda'n cymunedau a'n rhanddeiliaid i ganfod ffyrdd newydd o ddiwallu anghenion lle bo'n briodol.


Mae Technoleg TG wedi cyrraedd ceginau ysgol...

Fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC), mae cyflwyniadau electronig yn gwneud archebu cyflenwadau bwyd a chegin, taflenni amseri, e-fancio, llythyrau newyddion staff, cyrsiau e-ddysgu a thaliadau ar-lein am brydau ysgol yn fwy hwylus a chywir i staff cegin, gan arbed amser a gwneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol a chan ddefnyddio adnoddau'n well ar gyfer gwaith sy'n ychwanegu gwerth.




Gwasanaethau a ddarperir

- Cymdeithasol i Oedolion - £108m / 20%
- Ardollau - £9m / 2%
- Canolog - £20m / 4%
- Diwylliannol, Amgylcheddol a Chynllunio - £59m / 11%
- Addysg a Phlant - £207m / 39%
- Prifffyrdd, Ffyrdd a Thrafnidiaeth - £29m / 5%
- Tai - £99m / 19%



Ffynonellau Cyllid

- Grantiau Penodol - £91m / 17%
- Grant Cynnal Refeniw - £196m / 37%
- Ardrethi Annomestig - £56m / 10%
- Y Dreth Gyngor - £79m / 15%
- Rhenti Tai - £36m / 7%
- Ffioedd, Taliadau ac Incwm Arall - £73m / 14%



Cynnydd yn ystod 2015/16

Roeddem wedi gosod Prif Flaenoriaeth Gwella ar gyfer 2015/16 sef 'rhoi gwerth yr arian wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a gofalu bod ein hadnoddau'n mynd i'n gwasanaethau rheng-flaen sy'n flaenoriaeth bennaf ac y mae llawer o bobl leol yn dibynnu arnynt'. Yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol am yr Cyngor ym mis Mawrth 2016, daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad:

'Er gwaethaf pwysau cynyddol ar gyllidebau, mae perfformiad yn parhau i wella ym meysydd blaenoriaeth y Cyngor ac mae lefelau boddhad y cyhoedd â gwasanaethau'r Cyngor yn cynyddu... Mae gwasanaethau rheng flaen wedi'u diogelu, o ganlyniad i benderfyniadau cyllidebol a ffyrdd mwy effeithlon o weithio'



£ Mae gennym raglen ad-drefnu swyddfeydd, ac mae'n gweithio trwy addasu'r ffordd yr ydym yn defnyddio'r adeiladau er mwyn gweddu i anghenion y rheiny sy'n darparu gwasanaethau ac er mwyn ysgogi ffordd fwy ystwyth o weithio. Mae hyn wedi lleihau rhagor ar nifer yr adeiladau sy'n ofynnol i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, ynghyd â'r costau sydd ynghlwm wrth adeiladau.

Canlyniadau Disgwyliedig (fel y nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol)



60% o'n canlyniadau mesur cenedlaethol yn hanner uchaf y canlyniadau ar gyfer yr holl Gynghorau yng Nghymru.

56% o'n mesurau cenedlaethol wedi gwella y llynedd

58% o'n dinasyddion yn cytuno ein bod yn darparu gwasanaethau o ansawdd da



Rydym wedi parhau i leihau'r 'costau cynnal' sefydliadol

2013/14 £16.7M | 2014/15 £11.9M | 2015/16 £12.6M

Nod **Lleol-i** yw sicrhau gwelliant o ran rhoi gwybod i bobl am newidiadau i drefniadau casglu sbwriel, tywydd garw ac argyfyngau eraill, y newyddion diweddaraf, a gwybodaeth am ddigwyddiadau.



882,669
o ymwelwyr â'n gwefan

13.5%
o gynnydd mewn taliadau ar-lein

165,730
o ymwelwyr â Lleol-i

Y Brif Flaenoriaeth Amcanion Gwella ar gyfer 2016/17



Rhoi gwerth yr arian wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a gofalu bod ein hadnoddau'n mynd i'n gwasanaethau rheng-flaen sy'n flaenoriaeth bennaf ac y mae llawer o bobl leol yn dibynnu arnynt – gan roi ystyriaeth i doriadau cyllideb llywodraeth ganolog a'u heffaith



Mwy o wybodaeth - Adroddiad Blynyddol 2015/16 a Chynllun Gwella 2016/17

Canlyniad B: Adeiladu Gwell Cyngor...

Mae'r Cyngor bob amser wedi gweithio tuag at adeiladu Sir Gaerfyrddin well ac mae ganddo brofiad llwyddiannus o ran cyflawni hynny. Fodd bynnag, mae'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yn newid, ac fel Cyngor mae angen i ni ymateb ac addasu i'r newidiadau hyn er mwyn sicrhau y gallwn gefnogi anghenion pobl y sir yn y dyfodol.

Shwmae!



Masnachwyr Marchnad Llanelli, Wendy Lewis a Liz Thomas o AJ Meats, yn cefnogi Diwrnod Shwmae Sumae

Dechreuodd dros 100 o bobl eu sgwrs â 'Shwmae' yn ystod eu hymweliad â Marchnad Llanelli.

Fel rhan o'r Diwrnod Shwmae Sumae cenedlaethol ar 15 Hydref, anogwyd siopwyr i ddechrau eu sgwrs â 'shwmae' er mwyn cymryd rhan mewn raffl am ddim i ennill hamper o nwyddau a roddwyd gan y masnachwyr.

Rydym wedi gwneud gwelliannau pellach o ran Adeiladu Gwell Cyngor ac mae'r cynnydd hwn wedi'i wirio'n annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei **Aseiad Corfforaethol** ym mis Ionawr 2016.

"Gan arddangos uchelgais yn ei weledigaeth, a chyda chydardweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu mwy cadarn a didwyll, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn sicrhau canlyniadau gwell i'w ddinasyddion...."



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cynnydd yn ystod 2015/16

- Rydym yn parhau i hyrwyddo democratiaeth a thryloywder lleol gan ddefnyddio mwyfwy ar y cyfryngau cymdeithasol. Er enghraifft, roedd yr ymgynghoriad ynghylch y gyllideb â dinasyddion Sir Gaerfyrddin yn cynnwys arolwg ar-lein, digwyddiadau sioe deithiol, a defnyddio 'cwestiwn yr wythnos' drwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hwn yn gyfle newydd i ni edrych ar yr iaith yn ein gweithle ac yn y gwasanaethau rydym yn eu darparu.
- Cawsom dros 1000 o ymatebion i'n harolwg ynghylch tlodi gwledig, ac fe'u crynhowyd mewn adroddiad ar gyfer y Grŵp Cefn Gwlad. Mewn ymateb i hynny, mae rhaglen LEADER yn cefnogi prosiectau prawf sy'n ceisio cynyddu ecsbloetio digidol, mynediad i wybodaeth a gwasanaethau cynghori, yn ogystal â gofal plant fforddiadwy.

Canlyniadau Disgwyliedig (fel y nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol)

Cynnydd mewn cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd

4000+

o ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar dlodi gwledig, cartrefi fforddiadwy, y gyllideb a thwristiaeth. Aelodau'r Panel Dinasyddion a'r Fforwm 50+.

Mae gan Lleol-i ardal sydd wedi'i neilltuo i ymgynghoriadau â'r pennawd "Rydym am glywed eich barn chi am unrhyw un neu bob un o'r materion o ddiddordeb."



Cynnydd o ran Salwch y Staff

Yn anffodus, mae lefelau absenoldeb salwch ein staff wedi cynyddu i

10.1 o ddiwrnodau

o 9.6 o ddiwrnodau y flwyddyn flaenorol.



Y Staff yn Fwy Bodlon



Mae'r Cyngor wedi bod yn Fuddsoddwr mewn Pobl ers 2009, ac yn y flwyddyn ariannol hon mae'r Cyngor wedi cael ei adolygu ac mae ei achrediad wedi cael ei gynnal.

Yn ystod yr adolygiad, roedd cyfweiliadau â staff wedi dangos eu bod yn **fwy bodlon** na chynt.

Ni oedd yr awdurdod lleol cyntaf i gyflawni safon Iechyd Blatinwm Llywodraeth Cymru, a bellach rydym wedi dal yr achrediad ers 6 blynedd.

Y Brif Flaenoriaeth Amcanion Gwella ar gyfer 2016/17



Byddwn yn parhau i wella llywodraethu, gwneud penderfyniadau, a bod yn agored ac yn dryloyw ac yn dal ati i'w hadolygu drwy Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad.



Mwy o wybodaeth - Adroddiad Blyneddol 2015/16 a Chynllun Gwella 2016/17

Canlyniad C: Mae pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach ...

Mae ein ffordd o fyw yn newid. Mae pobl yn byw'n hwy, gydag ansawdd bywyd uwch, ond mae ein hanghenion gofal yn mynd yn fwy cymhleth. Yr her yr ydym yn ei hwynebu nawr yw atal afiechyd yn y lle cyntaf.

Help Llaw



Mae Yvonne yn byw gyda'i gŵr, sydd â methiant cronig y galon a phroblemau clyw, a hi yw prif ofalwr ei gŵr. Cwmpodd Yvonne ar risiau symudol mewn siop ac aethpwyd â hi i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, ond ar ôl ei hasesu, cafodd ei throsglwyddo i ofal Tîm Ymateb Cyflym gan y Rheolwr Gofal Cartref y tu allan i oriau gwaith, a thrwy hynny, ni fu'n rhaid ei derbyn i'r ysbyty.


Roedd Yvonne am fod yn annibynnol eto mor gyflym â phosibl. Rhoddwyd y cymorth angenrheidiol gan y Tîm Ymateb Cyflym hyd nes bod y cymorth gan y Tîm Ailalluogi wedi'i drefnu. Cafodd nifer yr ymweliadau eu lleihau o fewn tair i bedair wythnos, ac yna cawsant eu hatal gan nad oedd eu hangen mwyach.

Cynnydd yn ystod 2015/16

- ♥ Mae'r Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth agos â'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â materion **anghydraddoldeb iechyd** megis gordewdra, diabetes, ysmegu a defnydd o alcohol, dementia a chyflyrau cronig eraill. Hefyd mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r trydydd sector i ddatblygu cymunedau mwy gwydn, a thrwy hynny, wella iechyd a lles trigolion y cymunedau hyn.
- ♥ Bu i'r rhaglen Dechrau'n Deg estynedig alluogi 1,832 o blant i elwa ar y **gwasanaeth ymyrraeth gynnar** hwn; mae rhaglen hyfforddiant a chymorth y Tîm o Amgylch y Teulu yn cael ei gweithredu ar draws Sir Gaerfyrddin. Mae'r holl brosiectau Teuluoedd yn Gyntaf a gomisiynwyd yn defnyddio'r Fframwaith Asesu Teuluoedd ar y Cyd i fesur a yw'r cyfraniad wedi bod yn effeithiol. Mae'r panel adnoddau yn helpu i sicrhau bod **gwasanaethau ataliol** yn cael eu defnyddio'n llawn.
- ♥ Hefyd mae perthynas gref rhwng **ansawdd tai** a salwch. Rydym wedi buddsoddi mwy na £200 miliwn mewn gwella a moderneiddio cartrefi ein tenantiaid drwy Safon Tai Sir Gaerfyrddin.
- ♥ Yn ogystal rydym wedi canolbwyntio ar **gynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy** i'w rhentu a'u prynu ar draws y sir, ac wedi cynyddu faint o eiddo gwag sy'n cael ei adfer i'w ddefnyddio eto. Rydym wedi datblygu Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy 2015-2020, ar ôl ymgynghori'n helaeth â'r cyhoedd.

Canlyniadau Disgwyliedig (fel y nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol)

Gostyngiad yn yr atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a phlant



I lawr

26% a 14%


Mwy o gartrefi fforddiadwy a chartrefi ar rent ar gael

+185

Cartrefi Fforddiadwy Ychwanegol yn ystod 2015/16



Defnydd o gyfleusterau hamdden



I lawr 1.6%

niferoedd 20,000 yn llai, ond mae mwy na 1¼miliwn o hyd

Y Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella ar gyfer 2016/17



1. Hyrwyddo Annibyniaeth a Lles i Bobl Hŷn
2. gael er mwyn cefnogi anghenion pobl leol drwy weithredu ein cynllun darparu tai fforddiadwy




Mwy o wybodaeth - Adroddiad Blynnyddol 2015/16 a Chynllun Gwella 2016/17

Canlyniad D: Mae pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu

Rydym ni i gyd eisiau i'n plant a'n pobl ifanc gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd drwy eu helpu i ennill y sgiliau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen i fyw bywydau hapus, iach a bodlon. Rydym am wella canlyniadau ar gyfer pobl o bob oedran drwy ddysgu gydol oes. .

Y Canlyniadau Gorau Erioed i Ysgolion Sir Gaerfyrddin



Ysgol Glan-y-Môr yn Cyflawni'r Safonau Uchaf Posibl

Mae canlyniadau'r Dangosydd Lefel 2 Allweddol Cynhwysol, sef y mesur mwyaf pwysig, wedi dyblu dros dair blynedd, o 30% (2012) i 60% (2015) yn Ysgol Glan-y-Môr.




"Rwy'n hapus dros ben â'm canlyniadau. Diolch i'r holl staff yn yr ysgol am eu cefnogaeth. Roedden nhw'n wych"
Robbie Williams

"Rwyf wrth fy modd â'r hyn rwyf wedi'i gyflawni. Diolch i Glan-y-Môr, gallaf ddal ati nawr â'r llwybr gyrfa rwyf wedi'i ddewis!" *Tane Davies*

"Roedd yr ysgol yn wych. Rwy'n hapus dros ben. Diolch i bawb yn yr ysgol, rwyf wedi cyflawni popeth roeddwn am ei gyflawni." *Rebecca Roberts*

Am yr ail flwyddyn yn olynol, cyflawnodd ein disgyblion ysgol yn Sir Gaerfyrddin eu **canlyniadau arholiadau TGAU gorau erioed**, sef 61.1% o gymharu â Dangosydd Lefel 2 Allweddol Cynhwysol (pasio o leiaf 5 TGAU gradd A* i C yn cynnwys mathemateg ac iaith) gydag asesiadau athrawon ar bob cyfnod allweddol arall mewn addysg yn gwella ac yn cymharu'n ffafriol ag awdurdodau eraill.

Cynnydd yn ystod 2015/16

-  Rydym wedi sefydlu **Gwasanaeth Cymorth Ieuentid** Sir Gaerfyrddin, sy'n dod â'r Gwasanaeth Ieuentid a'r Gwasanaethau Troseddu Ieuentid ynghyd. .
-  O fewn ein **Rhaglen Moderneiddio Addysg**, cwblhawyd prosiectau datblygu ysgolion sylweddol yn Ysgol Bro Dinefwr, Ysgol Dyffryn Aman, Ysgol Gynradd Porth Tywyn, ac Ysgol Carreg Hirfaen, gyda miloedd o blant ar eu hennill.
-  Mae nifer y disgyblion 7 oed sy'n cael **addysg drwy gyfrwng y Gymraeg** wedi cynyddu. Mae % y dysgwyr sy'n cyrraedd y lefelau disgwylidig yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 wedi gwella. .

Expected Outcomes (as identified in Corporate Strategy)



61.1%

o'r disgyblion

yn ennill 5 TGAU gradd A* i C

yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg
iaith gyntaf a Mathemateg
Bellach yn y 7fed safle yng Nghymru

95.2%

Presenoldeb **Ysgolion Cynradd**



94.2%

Presenoldeb mewn **Ysgolion Uwchradd**
Yn y 5ed a'r 9fed safle yng Nghymru

3.5% (yn flaenorol 3.4%)

o ddisgyblion blwyddyn 11 a

2.8% (yn flaenorol 6.1%)

o ddisgyblion blwyddyn 13 a

**Heb fod mewn addysg, cyflogaeth
na hyfforddiant (NEET)**



55%

o'r ysgolion â'u cyflwr
wedi'i raddio'n

**'dda' or
'foddhaol'**

Y Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella ar gyfer 2016/17



1. Gwella cyrhaeddiad dysgwyr
2. Lleihau ymhellach nifer y bobl ifanc sydd HEB fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant



Mwy o wybodaeth - Adroddiad Blyneddol 2015/16 a Chynllun Gwella 2016/17

Canlyniad E: Mae pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel...

Mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn un o'r ardaloedd mwyaf diogel yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, rhaid i ni beidio â gorffwys ar ein rhwyfau ac mae angen i ni ddal ati i gydweithio â'n partneriaid i fynd i'r afael â phroblemau a nodir gan gymunedau lleol.

Codi Cywilydd!








Codwyd cywilydd ar yrrwr a gafodd eu dal yn gyrru'n rhy gyflym pan ofynnwyd iddyn nhw egluro eu hymddygiad i'r disgyblion y tu allan i'w hysgol

Roedd y fath gywilydd ar un gyrrwr nes iddo osgoi'r profiad annifyr drwy ddewis derbyn Hysbysiad Cosb Benodedig. Mae'r Fenter Atal Gyrru'n Rhy Gyflym y tu allan i ysgolion ledled y sir yn cael ei hyrwyddo fel rhan o Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gaerfyrddin.

Mae Sir Gaerfyrddin yn dal i fod yn un o'r ardaloedd mwyaf diogel yn y Deyrnas Unedig

Mae'r cyfraddau troseddu yn dal i fod yn sylweddol is yn Sir Gaerfyrddin o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr

Cynnydd yn ystod 2015/16

-  **Diogelu** plant ac oedolion yw ein blaenoriaeth gyntaf fel Cyngor ac eleni mae Polisi Corfforaethol wedi cael ei ddatblygu i sicrhau bod gan ein holl wasanaethau fwy o ymwybyddiaeth a gwell dealltwriaeth o weithdrefnau mewn perthynas â diogelu.
-  Mae ein hymagwedd Tîm o Amgylch y Teulu yn ein galluogi ni i **weithio gyda theluoedd ac asiantaethau eraill** i ddarparu cynllun cymorth ar adegau pan fo teulu'n wynebu amgylchiadau heriol. Hefyd mae'r cymorth hwn yn helpu'r teulu i fod yn fwy gwydn ac i ymdopi yn y dyfodol.
-  Rydym yn parhau i weithio gyda'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol er mwyn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r gwelliannau datblygu wedi cynnwys:-
 - rhannu gwybodaeth rhwng y systemau a ddefnyddir gan Gwalia a'r Heddlu
 - cysylltiadau rhwng holl bartneriaid y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol
-  Mae sylw penodol wedi cael ei roi i ddiogelwch ffyrdd yn 'Newyddion Sir Gâr' ac ar wefan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Rydym wedi parhau â mentrau amrywiol megis hyfforddiant 'Dragon Rider Cymru' i yrwyr beiciau modur ac rydym yn annog gyrwyr ifanc i gymryd rhan mewn hyfforddiant 'Pass Plus Cymru'.
-  Mae'r gwaith i **leihau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol** yn parhau ac roeddem wedi cynnal cynllun prawf gyda'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd gan roi sylw i achosion lle roedd gan rieni broblemau camddefnyddio sylweddau.



Canlyniadau Disgwyliedig (fel y nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol)

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cynnig cyngor ac arweiniad diduedd am ddim, gan alluogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gael mynediad i ystod eang o wybodaeth am ba wasanaethau a chymorth sydd ar gael.



Damweiniau ffordd 2015

(hanafu/lladd mewn damweiniau)

Cynnydd o 8.5% (o 94 i 102)

Perfformiad yn erbyn ein Targedau 2020

Gostyngiad o 12%

(o 116 i 102)



Er bod cynnydd o 10.8% yn y troseddau a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn, mae'n anodd cymharu ffigurau â 14/15. Mae newidiadau a wnaed o ran cofnodi data gan yr Heddlu wedi arwain at fwy o gywirdeb wrth gofnodi troseddu.



2014/15	2015/16
=7,381	= 8,128



Digwyddiadau

i lawr
15.5%

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2016/17

- Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth ac i ymgysylltu â chymunedau lleol er mwyn lleihau troseddau ac anhrefn.
- Byddwn yn parhau i dargedu goryrru gan gynnwys defnyddio Cynlluniau Cymunedol 'Speed Watch.'
- Byddwn yn parhau i sicrhau bod diogelu plant ac oedolion yn un o'n prif flaenoriaethau
- Byddwn yn darparu ymyrraeth dargeddedig, ymyriadau cynnar a thriniaeth effeithiol er mwyn lleihau'r niwed a achosir gan gyffuriau ac alcohol gymaint ag sy'n bosibl.



Mwy o wybodaeth - Adroddiad Blynyddol 2015/16 a Chynllun Gwella 2016/17

Canlyniad F: Mae cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy

Mae Sir Gaerfyrddin yn adnabyddus am ei chymunedau amrywiol a'i hamgylchedd naturiol hyfryd, ac rydym am sicrhau ein bod yn datblygu'n gynaliadwy fel y gall pawb yn y sir fwynhau ansawdd bywyd gwell yn awr ac am genedlaethau i ddod.






Compostio Gartref



Mae tenantiaid sy'n arddwyr brwdfrydig yn Nant-y-Glo, Pontyberem wedi bod yn darganfod manteision compostio gartref. Bellach mae porfa ynghyd â sborion cegin megis pilion llysiau a bagiau te yn cael eu compostio yn hytrach na chael eu taflu.

Mae'r cyflyrydd pridd da sy'n cael ei greu yn cael ei ddefnyddio yn eu potiau blodau er mwyn bywiogi canolfan dai gwarchod y Cyngor.

Cynnydd yn ystod 2015/16

-  Rydym wedi parhau i gael ceisiadau am brosiectau ynni adnewyddadwy a phenderfynu arnynt, yn bennaf ar ffurf tyrbinau gwynt unigol, ond hefyd ar ffurf fferm wynt Gorllewin Brechfa. Mae'r rhan fwyaf o'r ceisiadau o'r fath yn cael eu caniatáu. Gwrthodwyd y rheiny nad ydynt wedi cael eu caniatáu yn bennaf oherwydd goblygiadau i'r dirwedd, yn enwedig lle bo effeithiau cronol ar y dirwedd yn amlwg.
-  Mae ein hymagwedd gadarnhaol at benderfynu ar geisiadau cynllunio yn sicrhau bod cyfleoedd pellach wedi cael eu darparu drwy ganiatáu ceisiadau cynllunio, er mwyn diwallu anghenion tai, anghenion economaidd, ac, yn wir, anghenion cymunedol (ysgolion ac ati) y sir.
-  Rydym wedi cynorthwyo 250 o drigolion drwy roi sgiliau cynhwysiant digidol iddynt ar ffurf digwyddiadau allweddol ar draws ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, gan eu galluogi i ddychwelyd neu gael mynediad i gyflogaeth neu hyfforddiant. Roeddem wedi ennill grant gwledig dwy flynedd o £90,000 ar gyfer ecsbloetio technoleg ddigidol yn y Sir Gaerfyrddin wledig.
-  Rydym wedi gwella mynediad digidol yn Sir Gaerfyrddin yn ystod 2015/16 drwy sicrhau bod gan yr holl ysgolion fynediad i rwydwaith di-wifr a thrwy gychwyn ar y gwaith o sicrhau mynediad cyhoeddus i rwydwaith di-wifr ym marchnadoedd Llanelli a Chaerfyrddin. Hyd yn hyn sicrhawyd bod 46 allan o 54 Cyfnewidfa BT yn gallu darparu band eang cyflym iawn.
-  Rydym wedi parhau i wella cysylltiadau trafniadaeth sy'n cefnogi datblygiad economaidd a chynaliadwyedd:
 - Yn ystod 2015/16, cychwynwyd adeiladu ffordd gyswllt Gorllewin Caerfyrddin a chwblhawyd Cam 1B Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands, a fydd yn gwella mynediad i'r safle Cyflogaeth Strategol.
 - Roeddem wedi gosod wyneb newydd ar 27.98 cilomedr o briffyrdd yn ystod 2015/16.
 - Ar y cyfan, mae canran y ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael wedi lleihau o 11.9% i 10.7%.
 - ! Fodd bynnag, mae dirywiad wedi bod yng nghyflwr ffyrdd dosbarth A a B.
 - Cwblhawyd 3,166 metr o lwybrau beicio newydd yn 2015/16.

Canlyniadau Disgwyliedig (fel y nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol)



Cyfraddau ailgylchu uwch

63%

Yn uwch o lawer na'r targed statudol cenedlaethol o 58% ar gyfer 2015-16

Gwell mynediad digidol

cefnogi trigolion â sgiliau digidol

+ 250



Gwell cysylltiadau trafniadaeth

Gosod wyneb newydd ar
28 kilometres

o briffyrdd

2.5%+

Mwy o ddefnydd o ynni adnewyddadwy



Y Brif Flaenoriaeth Amcanion Gwella ar gyfer 2016/17



Gwella'r seilwaith priffyrdd i gefnogi cysylltedd a datblygiad economaidd pellach



Mwy o wybodaeth - Adroddiad Blyneddol 2015/16 a Chynllun Gwella 2016/17

Canlyniad G: Mae gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy llewyrchus.

Mae darparu swyddi diogel gyda chyflog da a chyfleoedd hyfforddiant i bobl leol yn ganolog i bopeth yr ydym yn ceisio'i gyflawni. Yn y gorffennol, mae gormod o bobl ifanc wedi cael eu gorfodi i adael Sir Gaerfyrddin i ddod o hyd i waith. Gan weithio ar draws yr holl sectorau – cyhoeddus, gwirfoddol, a phreifat – rydym am wella ffyniant i bawb yn y sir.

Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid – Trechu Tlodi: Stryd Cyfleoedd, Llanelli



Mae tri eiddo wedi cael eu prynu fel rhan o brosiect £1.5 miliwn Stryd Cyfleoedd er mwyn adfywio canol tref Llanelli ymhellach. Prynwyd yr eiddo gwag drwy gymorth ar ffurf cyllid **Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid** Llywodraeth Cymru. Dyrannwyd £1 filiwn i Lanelli dan y rhaglen dros dair blynedd 2014-17.

Prif nod y gronfa hon yw trechu tldi drwy greu swyddi, annog pobl i ddatblygu sgiliau, gwella tai, darparu cyfleusterau i ddenu siopau newydd, a helpu pobl i gael gwaith. Mae hon yn Brif Flaenoriaeth Amcanion Gwella i ni.

Mae nifer o brosiectau adfywio strategol wedi rhoi bod i ganlyniadau cadarnhaol ac wedi gwella cyfleoedd cyflogaeth

(Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru Mawrth 2016)

Cynnydd yn ystod 2015/16

- Mae ein gweithgarwch adfywio yn cael ei lunio drwy gydweithio effeithiol â chynghorau cyfagos er mwyn ffurfio Dinas-ranbarth Bae Abertawe. I gefnogi hyn, cafodd y **Cynllun Adfywio Strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin 2015-2030 – Trawsnewidiadau** ei lansio. Mae adfywio Sir Gaerfyrddin ar gyfer datblygiadau presennol a datblygiadau'r dyfodol yn uchelgeisiol ac yn heriol, ac mae'r Cynllun Adfywio Strategol ar gyfer y 15 mlynedd nesaf yn hyrwyddo cyfleoedd newydd ar gyfer twf busnesau a datblygu sgiliau a chreu swyddi, gan ddatblygu ein gwybodaeth, ein heconomi a'n twristiaeth ar yr un pryd.
- Mae ein Rhaglenni Dysgwyr yn rhan gynhenid o ddatblygu a diwygio'r cwricwlwm, ac mae'r rhaglenni'n gweithio gydag ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach lleol i ddarparu cyfleoedd dysgu o ansawdd da sy'n ystyrlon ac yn berthnasol i blant a phobl ifanc Sir Gaerfyrddin.
- Mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe wedi cyflwyno cais Bargen Ddinesig arloesol 'Arfordir y Rhyngwrdd', sy'n fwy na £500 miliwn dros 20 mlynedd. Trwy ddefnyddio grym trawsnewidiol rhwydweithiau digidol, mae'n gyfle gwirioneddol i hybu twf yn y rhanbarth, ac, yn bwysig ddigon, economi wledig Gorllewin Cymru.
- Bydd y Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd, Llynnoedd Delta, yn creu hyd at 1,000 o swyddi o bosibl ac yn golygu y buddsoddir £100 miliwn yn Llanelli.

Canlyniadau Disgwyliedig (fel y nodwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol))

180 o Swyddi wedi'u creu
109 o Swyddi wedi'u diogelu
149 o bobl wedi cael gwaith



1,220 o Swyddi
mewn lleoliad newydd
2,648 o bobl
wedi cael hyfforddiant

11.8% o boblogaeth
oedran gweithio yn Sir
Gaerfyrddin yn cael



budd-daliadau diweithdra
(wedi gostwng o 12.5% yn 2014))



69% Cyflogaeth
yn Sir Gaerfyrddin
(cynnydd o gymharu â 68.6% ar gyfer y
flwyddyn flaenorol)

Bron **£29M** o fuddsoddiad sector
preifat o fentrau wedi cael eu creu
12 o fentrau wedi cael eu creu



£13.13ha hectar o dir wedi cael
eu datblygu / gwella
+162,000 troedfedd sgwâr o
arwynebedd llawr wedi eu datblygu

Y Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella ar gyfer 2016/17



1. Creu swyddi a thwf ledled y Sir
2. Trechu Tlodi



Mwy o wybodaeth - Adroddiad Blynnyddol 2015/16 a Chynllun Gwella 2016/17

Fe Ddwedsoch Chi, Fe Wnaethon Ni

Fe ddwedsoch
Chi...

Fe Wnaethon Ni...

Rydym wedi rhoi rhai enghreifftiau o newidiadau cadarnhaol rydym wedi eu gwneud ar ôl clywed adborth dinasyddion ein hymgyrch 'Fe ddwedsoch chi....Fe wnaethon ni

Fe ddwedsoch chi...

Fe wnaethon ni...

Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau



Y byddech yn hoffi gallu gwneud taliadau â charden yn yr Hwb, Llanelli.

Bydd ciosgau talu hunanwasanaeth yn cael eu gosod yn yr Hwb yn ystod 2016/17, a fydd yn galluogi cwsmeriaid i wneud taliadau â charden (ac arian parod).

Adeiladu Gwell Cyngor



Adeiladu Gwell Cyngor
Y gallai staff y Ganolfan Gyswilt a'r Canolfannau Gwasanaeth Cwsmeriaid, er eu bod yn barod iawn i helpu, wella'r sail wybodaeth eang oedd ganddynt ynghyd â'u harbenigedd mewn rhai meysydd.

Mae staff yn dal i gael sesiynau ymwybyddiaeth a hyfforddiant yn rheolaidd, i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau'r Cyngor.

Iachach



Nad oeddech bob amser yn ymwybodol o'r safonau derbynol yr ydym yn disgwyl i'n Tenantiaid sicrhau bod eu heiddo yn eu cyrraedd.

Fel rhan o'r adolygiad o atgyweiriadau, cynhaliwyd cynllun prawf gennym i benderfynu ar amllder a natur ymweliadau rheolaidd â chartrefi holl denantiaid y Cyngor

Bod angen cartrefi llai o ran maint, yn bennaf i'w rhentu ac ar gyfer pobl leol. Roeddech am i ni fwyhau'r defnydd o gartrefi presennol, yn enwedig sicrhau bod tai gwag yn cael eu defnyddio eto.

Rydym wedi datblygu cynllun cartrefi fforddiadwy sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn ac sy'n nodi sut y byddwn yn darparu mwy na 1,000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol dros y 5 mlynedd nesaf, gan fuddsoddi mwy na £60 miliwn.

Fe ddwedsoch chi...

Fe wnaethon ni...

Addysg



Bod rhieni am allu mynegi eu dymuniad wrth wneud cais am le ysgol ar gyfer eu plentyn.

Rydym am weithredu newid i'r broses derbyn disgyblion i ysgolion er mwyn galluogi rhieni i fynegi dewis 1af, 2il ddewis, a 3ydd dewis wrth wneud cais am le ysgol.

Yr Amgylchedd



Eich bod am gael mwy o sicrwydd wrth anfon eich plant i'r ysgol gyda Chynorthwyrwr Teithwyr.

Mae'r adain Cludiant Teithwyr wedi atgoffa'r holl gontractwyr trafndiaeth o'r angen i roi gwybod i rieni a gwarcheidwaid am unrhyw newidiadau i drefniadau teithio ac wedi atgoffa'r holl Gynorthwyrwr Teithwyr bod yn rhaid gwisgo carden adnabod bob amser a'i dangos pan ofynnir iddynt wneud hynny.

Economi



Ei bod yn anodd ambell waith i gysylltu â'r tîm Budd-daliadau Tai dros y ffôn.

Mae goruchwylwyr wedi cael eu hatgoffa o bwysigrwydd monitro nifer y galwadau yn rheolaidd a byddant yn newid lefelau staffio'r tîm galwadau fel y bo'r angen.

Hefyd agorir llinellau ychwanegol ar yr amserau mwyaf prysur.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r canlynol:



Adfywio a Pholisi
Adran y Prif Weithredwr
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin SA31 1LQ



Ffôn: 01267 224486
Ebst: perfformiad@sirgar.gov.uk



Ewch i wefan y Cyngor

<http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/ymgyngori-a-pherfformiad/rheoli-perfformiad/>



Dilynwch ni ac ychwanegwch eich sylwadau ar dudalen Facebook y Cyngor



Dilynwch y cynllun hwn ac ychwanegwch eich negeseuon Trydar ar ein tudalen Twitter - #AdroddiadSirGar



Strategaeth Gorfforaethol 2015-2020 Cyngor Sir Caerfyrddin
Adroddiad Blynyddol 2015/16 a Chynllun Gwella 2016/17